# Ysgol Uwchradd Llanfyllin High School

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ.**

Ffôn/Telephone: (01691) 648391 Ffacs/Fax: (01691) 648898

office@llanfyllin-hs.powys.sch.uk www.llanfyllin-hs.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth Leadership Team**

Pennaeth **Mr Dewi Owen** Headteacher

Bid Ben Bid Bont

Dirprwy Bennaeth **Mr Llŷr Thomas** Deputy Headteacher

Penaethiaid Cynorthwyol **Mrs Ann Roberts & Mr Huw Lloyd-Jones** Assistant Headteachers

January 2019

Dear Parents /Carers,

**School Closure Procedure**

In the event of the school having to close, a decision will be made before 7.30 am. This information will be automatically posted on the Powys County Council website. For those of you who have signed up to the Powys text message service you will then receive an automated text informing you of the school closure. If you haven't done this already, and wish to sign up to texts, you will need to create an account on the Powys website www.powys.gov.uk and then follow instructions about signing up to the text message service. In addition, we will post news of any school closure on the school's Facebook account.

Please note all bus companies are notified of school closure. As head teacher, I have no control over the decision of the bus company to run a bus, therefore at times some buses will not be able to operate even though the school will be open. Therefore, during periods of inclement weather it is very important that parents make arrangements to ensure their children are able to catch a bus in the morning safely, and make suitable arrangements in the event of that bus not operating.

Finally, during periods of inclement weather it is sometimes necessary to send students home early. This decision is always taken on the advice of the bus companies, the state of the roads, and the most up to date weather forecast. If the school has to make this decision the procedure is as follows:

All pupils with access to a mobile telephone are to make direct contact with their parents/carers to inform them of the situation.

All pupils who are unable to access a mobile telephone will be allowed to use the school telephone.

We will post notices on our Facebook page and send text messages to parents giving the most up to date information.

**It is very important therefore that during periods of inclement weather that your child is able to contact you. It causes great difficulty when pupils are unable to make contact. Please ensure that you or another named emergency contact is available to be contacted during periods of adverse weather. Additionally, it is very important that we have up to date contact numbers.**

It is the duty of the head teacher to try to keep the school open. While I appreciate that parents need as much advance notice as possible in relation to school closure, sometimes this is not possible. I do, however, hope that this letter is helpful in providing the necessary clarity regarding communication about school closure.

Mr D. Owen
Headteacher

# Ysgol Uwchradd Llanfyllin High School

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ.**
Ffôn/Telephone: (01691) 648391 Ffacs/Fax: (01691) 648898
office@llanfyllin-hs.powys.sch.uk www.llanfyllin-hs.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth Leadership Team**

Pennaeth **Mr Dewi Owen** Headteacher

Bid Ben Bid Bont

Dirprwy Bennaeth **Mr Llŷr Thomas** Deputy Headteacher
Penaethiaid Cynorthwyol **Mrs Ann Roberts & Mr Huw Lloyd-Jones** Assistant Headteachers

Ionawr 2019

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

**Gweithdrefn Cau'r Ysgol**

Os bydd yr ysgol yn gorfod cau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn 7.30 yb. Caiff y wybodaeth yma ei gofnodi yn awtomatig ar wefan Cyngor Sir Powys. Bydd y rhai ohonoch sydd wedi cofrestru gyda Phowys i dderbyn neges destun yn cael neges destun awtomataidd i'ch hysbysu fod yr ysgol ar gau. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, a'ch bod yn dymuno derbyn negeseuon testun yna rhaid creu cyfrif ar wefan Powys www.powys.gov.uk a dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer ymuno â'r gwasanaeth negeseuon testun. Yn ychwanegol byddwn yn rhoi gwybodaeth cau'r ysgol ar dudalen Facebook yr ysgol.

Nodwch os gwelwch yn dda mae'r holl gwmnïau bysiau yn cael gwybodaeth pan mae'r ysgol ar gau. Fel pennaeth, nid oes gennyf unrhyw reolaeth dros benderfyniad y cwmnïau bysiau i redeg bws, felly ar adegau ni fydd rhai bysiau yn rhedeg er fod yr ysgol ar agor. Felly yn ystod cyfnodau o dywydd garw mae yn holl bwysig fod rhieni yn gwneud trefniadau bod eu plant yn medru dal y bws yn ddiogel yn y bore, a gwneud trefniadau addas pe na fyddai'r bws hwnnw'n rhedeg.

Yn olaf, yn ystod cyfnodau o dywydd garw mae weithiau yn angenrheidiol i anfon myfyrwyr gartref yn gynnar. Mae'r penderfyniad yma bob amser yn cael ei wneud ar gyngor y cwmnïau bysiau, cyflwr y ffyrdd a rhagolygon y tywydd diweddaraf. Os bydd yr ysgol yn gorfod gwneud y penderfyniad yma byddwn yn gweithredu fel a ganlyn:

Bydd yr holl fyfyrwyr sydd â mynediad i ffôn symudol yn cysylltu â' rhieni/ gofalwyr i'w hysbysu o'r sefyllfa

Bydd unrhyw ddisgybl sydd heb fynediad i ffon symudol yn cael caniatâd i ddefnyddio ffôn yr ysgol.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth ar ein tudalen Facebook ac yn anfon neges destun i rieni gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Mae'n holl bwysig felly yn ystod cyfnodau o dywydd garw bod eich plentyn yn medru cysylltu â chi. Mae yn creu anhawster mawr os bydd disgyblion yn methu â chysylltu. Os gwelwch yn dda sicrhewch eich bod chi neu unrhyw gyswllt brys arall ar gael yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Yn ychwanegol mae yn holl bwysig bod gennym rifau cyswllt cyfredol.**

Dyletswydd y pennaeth yw ceisio cadw'r ysgol ar agor. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod rhieni angen cymaint o rybudd a phosib ymlaen llaw ynglŷn â chau'r ysgol, nid yw hyn bob amser yn bosib. Fodd bynnag gobeithiaf fod y llythyr hwn o gymorth yn darparu'r eglurder angenrheidiol ynghylch â chau'r ysgol.

Mr D. Owen
Pennaeth